OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 691 (Cy. 56)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 1, Cylchfan Kingsland, Caergybi, Ynys Môn i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 11, Cyfnewidfa Llys y Gwynt, Bangor, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder o 40 mya Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Mawrth 2015* |
| *Yn dod i rym* | *16 Mawrth 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno mewn darnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar neu gerllaw'r ffordd.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, dehongli a chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Mawrth 2015. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 1, Cylchfan Kingsland, Caergybi, Ynys Môn i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 11, Cyfnewidfa Llys y Gwynt, Bangor, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder o 40 mya Dros Dro) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n ysgogi'r Gorchymyn hwn, neu gan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 16 Mawrth 2015

ac sy’n dod i ben pan symudir ymaith yn derfynol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw prif gerbytffyrdd a slipffyrdd, tua’r dwyrain a’r gorllewin, yn y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd â Chylchfan Kingsland, Caergybi, Ynys Môn i gyfeiriad y dwyrain hyd at bwynt 800 metr i’r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 11, Cyfnewidfa Llys y Gwynt, Bangor, Gwynedd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad a chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn y darnau o’r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru ar gyflymder uwch na 40 mya yn y darnau o’r gefnffordd.

**Ataliadau**

**5.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge, Ynys Môn i Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 50 mya 2014)**(3)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro mewn perthynas â’r darnau perthnasol o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2, yn ystod y cyfryw amseroedd pan fo’r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**6.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Caergybi, Ynys Môn) (Terfyn Cyflymder 50 mya a Gwahardd Cerddwyr) 2001**(4)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro mewn perthynas â’r darnau perthnasol o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2, yn ystod y cyfryw amseroedd pan fo’r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**7.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffyrdd yr A5 a’r A55 (Llanfairpwllgwyngyll i Gaergybi, Ynys Môn) (Dileu Cyfyngiadau) 2001**(5)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro mewn perthynas â’r darnau perthnasol o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2, yn ystod y cyfryw amseroedd pan fo’r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**8.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A5) (Ffordd Osgoi Llanfairpwllgwyngyll, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1984**(6)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro mewn perthynas â’r darnau perthnasol o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2, yn ystod y cyfryw

**9.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A5) (Ffordd Osgoi Bangor, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1983**(7)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro mewn perthynas â'r darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2, yn ystod y cyfryw amseroedd pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**10.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9, yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y gwaharddiad neu'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 3 neu 4 yn weithredol.

**Parhad y Gorchymyn hwn**

**11.** Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 10 Mawrth 2015

***R Morgan***

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru

**(3)** O.S. 2014/2917(W.298)

**(4)** O.S. 2001/1633(W.111)

**(5)** O.S. 2001/1653(W.113)

**(6)** O.S. 1984/172

**(7)** O.S. 1983/1931